# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Mae sefydlu ffyrdd o gyfathrebu'ch astudiaeth yn hanfodol i roi gwybod i randdeiliaid a'r cyhoedd am gynnydd eich ymchwil. Gall y rhain fod ar ffurf gwefannau dynodedig, cylchlythyrau wythnosol neu fisol, enwau @ yn y cyfryngau cymdeithasol a mwy.

## Ambell air i gall ar gyfer cyfathrebu ynglŷn ag astudiaeth

- Gwnewch yn siŵr bod gan eich astudiaeth wefan ddynodedig, neu dudalen ar wefan gwesteiwr lle mae modd dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a manylion cyswllt
- Rhowch gynnig ar safleoedd fel Mailchimp i sefydlu cylchlythyr astudiaeth yn rhwydd
- Crëwch gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer eich astudiaeth
- Crëwch logo ar gyfer eich astudiaeth ar wefan ddylunio rhad ac am ddim, fel Canva
- Sefydlwch gyfeiriad e-bost i'r astudiaeth ar gyfer ymholiadau o du'r cyfryngau
- Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth ddiweddaraf oll ar eich cyfrif Researchfish – mae cael proffil cyflawn yn ei gwneud hi'n haws i rywun ddod o hyd ichi

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk
02920 230 457
@YmchwilCymru
ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Cyfathrebu ynglŷn ag astudiaeth

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

Eich stori ymchwil

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa – dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwil?

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru